**Ymgynghorwyd ar y Gorchymyn drafft ei hun fel rhan o ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru a barhaodd am 12 wythnos, ac ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yr oedd cyrff llywodraeth leol a'r cyhoedd. Ni wnaeth yr un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fynegi unrhyw bryder am hygyrchedd y Deddfau lleol y mae'r Gorchymyn yn cyfeirio atynt. Bydd y Gorchymyn drafft ei hun, wrth gwrs, yr un mor hygyrch i'r cyhoedd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad ac a wneir gan Weinidogion Cymru.**

**Mae'r holl ddeddfwriaeth o 1988 ymlaen wedi ei gyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth cyn y dyddiad hwnnw. Ceir rhai eithriadau i hynny, fodd bynnag, ac mae'r broses hon wedi amlygu'r eithriadau hynny. Cyfrifoldeb yr Archifau Gwladol yn cyhoeddi deddfwriaeth, ond mae Gweinidogion Cymru yn derbyn yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Archifau Gwladol, ynghyd ag awdurdodau lleol, i geisio sicrhau bod yr holl Ddeddfau lleol sy'n ymwneud ag ardaloedd yng Nghymru ar gael ar legislation.gov.uk (yn enwedig y rhai hynny y mae Deddfau Cyffredinol Cyhoeddus y Cynulliad yn cyfeirio atynt).**

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 21(4) o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2014 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, IS-DDEDDFAU, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ("y Ddeddf"), a gwnaed y Gorchymyn hwn o dan adrannau 9 ac 16 o'r Ddeddf.

Mae adran 9 o'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff wneud is-ddeddfau heb iddynt gael eu cadarnhau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr o is-ddeddfau y caiff y mathau perthnasol o awdurdodau eu gwneud heb eu cadarnhau. Mae erthygl 2 yn diwygio Tabl 1 yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Mae adran 16 o'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff gynnig hysbysiadau cosbau penodedig.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau y caiff is-ddeddfau oddi tanynt ddarparu ar gyfer hysbysiadau cosbau penodedig. Mae erthygl 3 yn diwygio Tabl 2 yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 21(4) o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2014 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, IS-DDEDDFAU, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* ***

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 9 ac 16 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 21(4) o'r Ddeddf honno.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

(**1**) 2012 dccc 2.

**Diwygio Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf**

2.—(1) Mae Tabl 1 yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg 1973 | Ymgymeriadau gwresogi | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol" |

(3) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 42 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol" |

(4) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 23 o Ddeddf Tai 1985, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 53 o Ddeddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 | Yr afon uwchlaw | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 31 o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 | Harbwr Porthcawl | Cyngor bwrdeistref sirol (Pen-y-bont ar Ogwr) |
| Adran 14 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 36 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Plismona a rheoli ffyrdd i gerddwyr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Adran 41 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 63 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Marchnad Abertawe | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 45 o Ddeddf Dyfed 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol” |

(5) Yn y rhes sy’n dechrau “Adran 2 o’r Ddeddf hon”, ar ôl “Rheolaeth dda a llywodraeth” mewnosoder “a rhwystro ac atal niwsansau”.

**Diwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i’r Ddeddf**

3.—(1) Mae Tabl 2 yn Rhan 2 o Atodlen 1 i’r Ddeddf (is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl y rhes sy’n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| “Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 42 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol” |

(3) Ar ôl y rhes sy’n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 23 o Ddeddf Tai 1985, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| “Adran 53 o Ddeddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 | Yr afon uwchlaw | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 31 o Ddeddf Cyngor Sir | Harbwr Porthcawl | Cyngor bwrdeistref sirol (Pen-y- |

| | | |
|---|---|---|
| Morgannwg Ganol 1987 | | bont ar Ogwr) |
| Adran 14 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 36 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Plismona a rheoli ffyrdd i gerddwyr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 41 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 63 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Marchnad Abertawe | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 45 o Ddeddf Dyfed 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol” |

(4) Yn y rhes sy’n dechrau “Adran 2 o’r Ddeddf hon”, ar ôl “Rheolaeth dda a llywodraeth” mewnosoder “a rhwystro ac atal niwsansau”.

Dyddiad

**MEMORANDWM ESBONIADOL**

CYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

**GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH CYMRU 2006 (DIWYGIO) 2015**

**Cynnig ar gyfer Gorchymyn o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol i ddiwygio adran 79 o'r Ddeddf honno (datblygu cynaliadwy)**

**Cyflwyniad**

1. Gosodir y Memorandwm hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 25 sy'n ymwneud â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sydd i'w gwneud o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006").

2. Mae adran 109 o Ddeddf 2006 yn grymuso ei Mawrhydi, trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i ddiwygio Atodlen 7 o Ddeddf 2006, ar yr amod bod y Gorchymyn wedi ei gymeradwyo yn gyntaf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd.

3. Mae RhS 25.5 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Esboniadol ar yr un pryd ag y gosodir Gorchymyn arfaethedig o dan RhS 25.4. Mae'r Memorandwm hwn felly'n cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig ac yn pennu cefndir y darpariaethau yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015 arfaethedig.

**Crynodeb a diben y Gorchymyn**

4. Byddai'r offeryn ("y Gorchymyn") yn diwygio Atodlen 7 o Ddeddf 2006 i roi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") addasu adran 79 (datblygu cynaliadwy) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), neu roi'r pŵer trwy is-ddeddfwriaeth i'w addasu.

5. Nid yw'r Gorchymyn hwn ei hun yn gwneud unrhyw newid arall. Y cwbl y mae'n ei wneud yw caniatáu i'r Cynulliad ystyried diwygio adran 79 o Ddeddf 2006, pe bai'n dewis gwneud hynny. Byddai Llywodraeth Cymru'n gobeithio dwyn diwygiad o'r fath i adran 79 gerbron yn ystod hynt y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Bil").

**Cyd-destun deddfwriaethol**

6. Mae adran 108 o Ddeddf 2006, ynghyd ag Atodlen 7, yn gosod rhychwant cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i basio Deddfau Cynulliad. Mae Deddf 2006 yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu na chaiff Deddf Cynulliad addasu Deddf 2006 (Atodlen 7, Deddfau Cynulliad, Rhan 2, Cyfyngiadau Cyffredinol, paragraff 5, is-baragraff (1)).

7. Mae rhan 2, paragraff 5, is-baragraff (2) o Atodlen 7 o Ddeddf 2006 yn pennu rhestr o ddarpariaethau penodol o fewn Deddf 2006 nad yw is-baragraff (1) yn gymwys iddynt, a chaiff Deddf Cynulliad felly addasu'r darpariaethau hynny a gynhwysir yn Neddf 2006, neu roi pŵer trwy is-ddeddfwriaeth i'w haddasu.

8. Mae adran 109 o Ddeddf 2006 yn pennu y caiff ei Mawrhydi trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ddiwygio Atodlen 7 o Ddeddf 2006.

9. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff 5(2) o Ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 i gynnwys adran 79 (Datblygu cynaliadwy) er mwyn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ddiwygio adran 79 o Ddeddf 2006 (datblygu cynaliadwy).

10. Daw'r Gorchymyn i rym y diwrnod ar ôl ei wneud.

11. Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gyflwynwyd i'r Cynulliad gan Lywodraeth Cymru ar 7 Gorffennaf 2014 ac y mae'r Cynulliad yn craffu arno ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer rhoi dyletswyddau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy. Cyflwynir gwelliant i'r Bil i gynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud diwygiad o'r fath i Ddeddf 2006, pe cymeradwyid y Gorchymyn hwn.

12. Rhagwelir y bydd y Bil, yn ddarostyngedig i ewyllys y Cynulliad a Chydsyniad Brenhinol, yn dod yn gyfraith ym mis Ebrill 2015.

**Cefndir y polisi**

13. Mae gweithredu o ran datblygu cynaliadwy yn rhan o setliad datganoli presennol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n deddfu i ychwanegu dyfnder a manylder i arfer cynaliadwy ar draws y sector cyhoeddus ac i gorffori'r ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy mewn deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau penodedig yn y sector cyhoeddus wneud cynnydd i gyfrannu at les Cymru gynaliadwy.

14. Y ddyletswydd bresennol ar Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy yn adran 79 o Ddeddf 2006 yw cyhoeddi cynllun yn manylu sut y byddant yn hybu datblygiad cynaliadwy; cyhoeddi adroddiad ar sut y gweithredwyd y cynllun ym mhob blwyddyn ariannol; a chyhoeddi adroddiad ynglŷn ag effeithiolrwydd y cynllun.

15. Awgryma'r adolygiadau effeithiolrwydd nad yw'r ddyletswydd bresennol yn mynd yn ddigon pell, ac mae rhai rhanddeiliaid yn cytuno â'r awgrym hwn.

16. Mae'r adolygiadau effeithiolrwydd annibynnol ynglŷn â gweithredu'r ddyletswydd wedi mynegi'r feirniadaeth bod y cynllun statudol yn cael ei

weld yn *"un o blith nifer o flaenoriaethau croes, yn hytrach na'r ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn rheoli ei blaenoriaethau croes"*[1].

17. Cydnabuwyd hyn hefyd gan Gomisiynydd Dyfodol Cynaliadwy presennol Cymru yn ei sylwebaeth annibynnol ar Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy 2012/13, pryd y tynnodd sylw at wendidau systemig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy a'r dull cysylltiedig o gyflwyno adroddiad ar yr hyn a gyflawnwyd.

18. Ceisia Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymdrin â'r gwendidau hyn trwy sicrhau bod Gweinidogion Cymru (ynghyd â chyrff cyhoeddus penodedig) yn gosod amcanion lles sy'n cyd-fynd â'r nodau lles y darparwyd ar eu cyfer yn y Bil, a bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni mewn modd cynaliadwy. Golyga hyn roi ar waith yr egwyddor datblygu cynaliadwy a ddarperir gan y Bil, gan ddefnyddio'r pum agwedd lywodraethu sef cydweithredu (cydweithio); meddwl am y tymor hir (diogelu at y dyfodol); atal (rhwystro problemau rhag codi o gwbl); integreiddio (edrych ar y nodau i gyd gyda'i gilydd); a chanolbwyntio ar ddinasyddion wrth lunio polisïau (ymgysylltu â phobl). Mae angen arweinyddiaeth gref ac agwedd sy'n batrwm i eraill ar y lefelau uchaf er mwyn ymwreiddio datblygiad cynaliadwy trwy gyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru.

19. Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil yn rhoi dyletswyddau o sylwedd ar Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy, a thrwy ddiwygio adran 79 o Ddeddf 2006 gellir sicrhau bod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gyson ac yn cyd-fynd â'i gilydd, a sicrhau eglurdeb yn y llyfr statud.

20. Mae'r Bil yn cryfhau trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru er mwyn sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy). Mae'n pennu nodau llesiant y disgwylir i gyrff cyhoeddus penodedig geisio'u cyflawni er mwyn gwella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Bydd y Bil yn:

    a. Gosod chwe nod llesiant statudol i'w dilyn â'r "nod cyffredin" o wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Bydd cyrff cyhoeddus penodedig yn cyfrannu at y nodau llesiant drwy osod a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;

    b. Sefydlu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros Gymru;

[1] *Adolygiad o Effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy*, 31 Ionawr 2012. http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/effectivenessreview2012/?skip=1&lang=cy

c. Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru a'i gwneud yn ofynnol iddynt baratoi a chyhoeddi asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol. (Wrth wneud hyn, mae'r Bil yn symleiddio'r gofynion presennol o ran cynllunio cymunedol integredig, gan gynnwys diddymu dyletswyddau o ran Cynlluniau Lles ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a chynlluniau Cymunedol.)

**Canlyniad yr ymgynghori**

21. Trafodwyd a chytunwyd ar y Gorchymyn hwn â Swyddfa Cymru.

22. Ni fu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Gorchymyn drafft hwn. Cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus eisoes ynglŷn â'r ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r pwnc y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, fel y'u disgrifir isod, gan gynnwys yr effaith ar y ddyletswydd bresennol.

23. Amlygwyd cefnogaeth i'r cynnig i ddeddfu o ran Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi ei gyflwyno erbyn hyn, mewn digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2011 er mwyn archwilio pa fesurau deddfwriaethol a ystyrid yn briodol gan randdeiliaid.

24. Casglwyd barn gyhoeddus, trwy ddogfen ymgynghori, ynglŷn â chynnwys posibl cynnig deddfwriaethol newydd ynglŷn â datblygu cynaliadwy yng Nghymru; cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 9 Mai a 17 Gorffennaf 2012. Pryd y mynegwyd barn ynglŷn â chynnwys cyfraith newydd o'i gymharu â'r ddyletswydd bresennol yn adran 79, roedd y farn honno'n unfrydol; roedd rhanddeiliaid yn dymuno gweld dyletswydd ar Weinidogion Cymru a oedd yn mynd ymhellach na'r darpariaethau presennol sy'n gofyn am 'gynllun i hybu' datblygiad cynaliadwy.

25. Cyhoeddwyd papur gwyn ym mis Rhagfyr 2012 â chynigion penodol o ran cyfraith newydd ynglŷn â datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 3 Rhagfyr 2012 a 4 Mawrth 2013 a chafwyd 3927 o ymatebion (gan gynnwys 3749 o ymatebion ymgyrch). Cyfrannodd y rhain yn uniongyrchol at y broses o ddatblygu'r dull gweithredu a amlinellwyd yn y papur gwyn.

26. Ni wnaeth ymatebion i'r ymgynghoriad hwn fynegi unrhyw broblemau ynglŷn â'r diben, a ddatganwyd yn benodol yn y papur, i geisio diwygio'r ddyletswydd bresennol yn adran 79 o Ddeddf 2006, ar yr amod na fyddai hynny'n arafu'r ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â datblygu cynaliadwy. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dyletswydd yn adran 79 o Ddeddf 2006 a oedd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â datblygu cynaliadwy.

27. Cyhoeddwyd adroddiad Llywodraeth Cymru ar Grynodeb yr Ymgynghoriad ym mis Mai 2013 a chyhoeddwyd yr holl ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2013. Roedd y crynodeb yn

cynnwys manylion y sefydliadau a hysbyswyd ynglŷn ag ymgynghoriad y Papur Gwyn ynghyd â rhestr o'r rhai a ymatebodd.

**Goblygiadau ariannol**

28. Ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r Gorchymyn hwn. Cynhaliwyd asesiad effaith llawn ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol pan y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a chafodd ei adolygu yn dilyn craffu Cyfnod 2.

**Carl Sargeant**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
Tachwedd 2014

Eitem 6

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/CS/4221/14

Alun Ffred Jones AM
Chair of the Environment and Sustainability Committee
National Assembly for Wales

3 November 2014

Dear Alun,

Thank you for your letter of 13 October regarding the recent decision by the European Commission to send a reasoned opinion to the UK Government over failure to fully transpose Directive 2011//97/EU on the storage of metallic mercury considered as waste.

The Directive sets out the criteria for the safe storage of metallic mercury wastes. It amends the Landfill Directive to provide a derogation which allows the safe storage of metallic mercury waste for periods greater than 12 months. It was transposed in England and Wales through the Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2013 (SI 2013/766). The Commission was notified of the transposition on 3 June 2013.

A Reasoned Opinion was received by the Department for Environment Food and Rural Affairs (Defra) on 25 September 2014 in which the Commission takes the view that the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland has failed to fulfil its obligations under Article 2 of this Directive i.e. the Commission consider that transposition has not been effected in England and Wales or, in any event, that notification has not taken place.

My officials have been in regular contact with Defra officials about this issue. We take this matter seriously and are confident that our legislation meets the Directive's requirements. The Reasoned Opinion challenges the method of legal drafting that the UK has used to give effect to this Directive. The UK's position is that from 26 April 2013 this Directive has been effectively transposed in England and Wales. We will be working with Defra to agree a response strongly contesting the Reasoned Opinion and providing a detailed explanation of the drafting methods employed.


I am copying this letter to David Melding AM, Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yours sincerely



**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/CS/4221/14

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Tachwedd 2014

Annwyl Alun,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref ynghylch y penderfyniad diweddar gan y Comisiwn Ewropeaidd i anfon barn resymedig at Lywodraeth y DU dros fethu â throsi'n llawn Gyfarwyddeb 2011//97/UE ar storio merciwri metalig sy'n cael ei ystyried fel gwastraff.

Mae'r Gyfarwyddeb yn pennu'r meini prawf ar gyfer storio gwastraff merciwri metalig yn ddiogel. Mae'n diwygio'r Gyfarwyddeb Tirlenwi i ddarparu rhanddirymiad sy'n caniatáu i wastraff merciwri metalig gael ei storio'n ddiolgel am gyfnodau hwy na 12 mis. Cafodd ei drosi yng Nghymru a Lloegr drwy'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)(Diwygio)(Rhif 2) 2013 (OS 2013/766). Cafodd y Comisiwn ei hysbysu o'r trosiad ar 3 Mehefin 2013.

Derbyniwyd Barn Resymedig gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ar 25 Medi 2014, pan oedd y Comisiwn o'r farn bod Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon wedi methu a chyflawni ei hymrwymiadau o dan Erthygl 2 y Gyfarwyddeb hon h.y. mae'r Comisiwn yn ystyried nad yw'r trosiad hwn wedi dod i rym yng Nghymru a Lloegr, neu, waeth beth yw'r sefyllfa, nad yw'r hysbysu wedi'i wneud.

Bu fy swyddogion mewn cysylltiad â Defra yn rheolaidd am y mater hwn. Rydym yn cymeryd y mater hwn o ddifrif, ac yn hyderus bod ein deddfwriaeth yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Mae'r Farn Resymedig yn herio'r dull o ddrafftio cyfreithiol y mae'r DU wedi'i ddefnyddio i weithredu'r Gyfarwyddeb hon. Sefyllfa'r DU yw bod y Gyfarwyddeb hon wedi'i throsi'n effeithiol yng Nghymru a Lloegr o'r 26 Ebrill 2013. Byddwn yn cydweithio â Defra i gytuno ar ymateb yn herio'r Farn Resymedig yn gryf ac yn rhoi eglurhad manwl o'r dulliau drafftio a ddefnyddiwyd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

# Eitem 7.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7.2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7.3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7.4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7.5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon